
tafod elái

EBRILL 2007

Rhif 216

Pris 60c

# Hanes y Bont Mewn Lliw




Mae Cyngor Tref Pontypridd wedi cyhoeddi ail-argraffiad o lyfr gwerthfawr H.P. Richards ar fywyd William Edwards. Yn 1986 cyhoeddwyd hanes Williams Edwards gan y diweddar H.P. Richards, Caerffili, am y tro cyntaf. Roedd y llyfr gwreiddiol yn Saesneg gyda lluniau du a gwyn. Ond mae Brian Davies, Curadur Amgueddfa Pontypridd, a'r cyfieithydd Gareth Wort wedi cydweithio ar argraffiad newydd gyda lluniau lliw.

Lansiwyd y llyfr newydd yn yr Amgueddfa ar 12 Mawrth gyda sgwrs gan Gwyn Griffiths ar fywyd William Edwards, cyflwyniad gan Geraint Morgan ar brosiect Cymraeg Morgannwg a gwledd o ganu ac adrodd gan ddoniau Ysgol Evan James.

Mae'r llyfr ar werth o Amgueddfa Pontypridd am £6.50.



Y diweddar H.P.Richards




Côr Ysgol Evan James yn lansiad llyfr William Edwards




Mae Catrin Finch, Gwaelod y Garth, wedi cychwyn academi telyn ar-lein unigryw lle bydd yn rhannu ei thechnegau perfformio, rhoi gwersi arbennig a chyngor. Ewch i www.catrinfinchacademi.com.




Rhaglen deledu newydd sydd i'w weld ar y we yn unig yw www.siaradog.com. Mae'r rhaglen ar gyfer pobl ifanc wedi ei baratoi gan Aneirin Karadog a chriw Tinopolis.

# Gareth Edwards yn pasio'r bêl



Cafwyd noson yng nghwmni Gareth Edwards i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Nghymdeithas Gymraeg Llantrisant. Cynhaliwyd y cinio yn yr Hen Swyddfa Bost, Sain Ffagan a chyflwynwyd Gareth Edwards gan Gwilym Treharne, un o'i gyfeillion ers iddo ddechrau chwarae rygbi.

Bu Gareth yn sôn am ei ddyddiau cynnar yn chwarae rygbi a sut y daeth i fod 'yn y man iawn, ar yr amser iawn'. Roedd o'n frwd i glodfori doniau'r chwaraewyr o'i gwmpas heb sôn am ei ddoniau arbennig ei hun. Roedd Cymraeg Cwmgors yn llifo a'r straeon am dîm Cymru ac am y Llewod ym mhellteroedd Seland Newydd yn hel atgofion am oes euraidd. Noson fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd.

# tafod elái

***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***
***DOSBARTHU***
***John James 01443 205196***
***TRYSORYDD***
***Elgan Lloyd 029 20842115***
***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 5 Mai 2007
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
26 Ebrill 2007

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**
*e-bost*
**pentyrch@tafelai.net**

*Argraffwyr:*
**Gwasg**
**Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

## Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol**
**ar gyfer eich cartref**
**neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




**Eisteddfod**
**GENEDLAETHOL CYMRU**

# Cinio a Dawns

Yn y Marquee
ar Barc y Dwrlyn,
Pentyrch
**Nos Iau, Mai 17 2007**
**7.00 o'r gloch ar gyfer 7.45**

Cinio tri chwrs
Adloniant yn cynnwys
Dave Escott
**£25 y pen (Byrddau i 10)**

***Elw at Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 2008***

Tocynnau: 029 20890040

**MERCHED Y WAWR**
Cangen y Garth
**Dr. Rhian Owen**
yn sôn am ei gwaith fel
Cyfarwyddwr y Bwthyn Newydd
Penybont.
8yh Nos Fercher,
11 Ebrill
Neuadd Pentyrch

Am ragor o fanylion, ffoniwch:
Carol Davies, Ysgrifennydd
029 20892038

**CYLCH CADWGAN**

**Dr. John Davies**
**'Llunio'r Gwyddoniadur Cymreig'**
**Nos Fercher Mai 9 2007**
**am 8.00pm.**
**yn Festri Bethlehem,**
**Gwaelod y Garth**

Cydnabyddir cefnogaeth
yr Academi Gymreig
**Manylion pellach:**
**029 20891577**

**Apêl Ysgol Gymraeg**
**Tre-lew Patagonia**

*Asado a Noson Lawen*

yng nghwmni
Iestyn Morris
Côr Merched y Garth
Parti'r Efail
a'u cyfeillion

**ar noson 8 Mehefin 2007**

yn Lakeside Farm Park,
Gilfach Goch
**Tocynnau: 01443 228196**

**CLWB Y DWRLYN**

**Taith gerdded gyda**
**Don Llewellyn**
**2pm Dydd Sul, 22 Ebrill**
**Manylion: 029 20890570.**

CLWB Y BONT
85A Stryd Taf
Pontypridd CF37 4SL
01443 491 424
info@clwbybont.org

## Talwrn y Beirdd

**7.30pm**
**Nos Fawrth, 24 Ebrill**

**Yng nghmni beirdd enwog yr ardal.**

**CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT**

**Taith bws i Aberglasne a Llandeilo ar 19 Mai**

**Taith Trên i Plymouth 9 Mehefin**

**Manylion:01443 218077**

# MENTER IAITH

**ar waith yn Rhondda Cynon Taf**
**01443 226386**

www.menteriaith.org




**Tracey Williams yn lansiad safleswyddi.com**

**Dathlu Gŵyl Ddewi**
Daeth 40 o aelodau a chefnogwyr Cwlwm Busnes y Cymoedd a'r Fenter i Fwyty Indica, Pontypridd ar Ddydd Gŵyl Dewi. Roedd hi'n noson arbennig gyda lansiad gwefan newydd safleswyddi.com ac ocsiwn i gefnogi gwaith y Fenter. Mae Tracey Williams wedi sefydlu safleswyddi.com er mwyn cynnig ffordd effeithiol i gyflogwyr hysbysebu am weithwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae hi wedi gweithio ym maes recriwtio dros yr 11 mlynedd diwethaf a hi yw Cyfarwyddwraig JobTrac Cymru.

**Ieuenctid**
Mae'r criw ieuenctid yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a chynnal rownd ranbarthol Brwydr y Bandiau. Daeth dros 100 i'r Ffatri Bop ar 16 Mawrth i weld 7 band o dde Cymru yn brwydro i fynd trwodd i'r rownd nesaf.

**Hanes Morgannwg**
Trefnwyd bws gan Gymdeithas Gymraeg y Maerdy i fynd i'r Ganolfan Gydol Oes yng Ngarth Olwg i fynychu araith ar draddodiadau lleol gan Allan James, Llantrisant.

**Eisteddfod**
**GENEDLAETHOL CYMRU**

Caerdydd a'r Cylch 2008

## Côr yr Eisteddfod

Gwahoddir unrhyw un sydd am fod yn aelod o
**Gôr Eisteddfod 2008**
i gyfarfod â'r arweinydd, Alun Guy,
nos Iau 19 Ebrill am 7.30
yng nghapel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina.
Cynhelir yr ymarferion yn wythnosol i baratoi ar gyfer Cymanfaoedd Canu'r Cyhoeddi a'r Eisteddfod, a chyngerdd y Côr yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Am fanylion pellach cysylltwch â Heulwen Jones
heulwen@eisteddfod.org.uk
029 2076 3777

# Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

**Eisteddfod!**
Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch. Da iawn chi blant! Cafwyd diwrnod llwyddiannus gyda'r canlyniadau isod. Unawd Bl 2 ac Iau – 2il Alex King, 3ydd Bethan Davies; LlefaruUnigol Bl 2 ac Iau – 1af Morgan Barrington Williams; Unawd Bl 3 a 4 – 2il Owain Ellis; Llefaru Bl 3 a 4 – 3ydd Llewelyn Davies; Unawd Bl 5 a 6 – 3ydd Siwan Henderson; Deuawd Bl 6 ac Iau – 1af Siwan Henderson a Catrin Jones, 2il Grace Lindley a Grace Abraham; Alaw Werin – 1af Hanna Davies, 3ydd Siwan Henderson; Unawd Telyn – 1af Siwan Henderson; Ensemble Offerynnol – 2il Llantrisant; Dawnsio Disgo – 1af Llantrisant. Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol a fydd yn mynd yn syth i'r Sir – Parti Unsain, Parti Deulais, Ensemble Lleisiol, Côr, Dawnsio Gwerin Bl 3 a 4 a Bl 5 a 6.

**Dathlu Canmlwyddiant yr Eglwys**
Prysur iawn oedd 1af Mawrth eleni! Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol yn ystod y dydd, a chyda'r hwyr aeth criw o blant ac athrawon i ganu mewn gwasanaeth arbennig i ddathlu canmlwyddiant yr Eglwys ym Mhontyclun.

**Noson i'r Rhieni Newydd**
Cynhaliwyd noson i groesawu'r rhieni newydd ar nos Fawrth 13/03/07. Cafwyd cyflwyniadau amrywiol am yr ysgol, am y math o weithgareddau a ddarperir i'r plant bach, am waith y Llywodraethwyr, ac am ein gwisg. Aeth y rhieni ar wibdaith o gwmpas yr ysgol gyda phaned i ddilyn!! Diolch i bawb am noson lwyddiannus.

# Eisteddfod Dysgwyr Morgannwg

Nos Wener 16 Chwefror, cynhaliwyd Yr Eisteddfod gyntaf ar gyfer dysgwyr o fewn ardal Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg a leolir o fewn Prifysgol Morgannwg. Yr oedd yr Eisteddfod yn fenter ar y cyd rhwng y Ganolfan Cymraeg i Oedolion a Chanolfan Dysgu Gydol Oes Morgannwg. Croesawyd pawb i'r Ganolfan trwy ddarparu pryd o fwyd cyn cychwyn ar y cystadlu. Daeth dros 100 o ddysgwyr i'r noson a bu cystadlu brwd.

Enillydd y Goron oedd Margaret Cummings sydd yn byw yn Efail Isaf ac yn aelod o ddosbarth Madeleine Howells yn Llantrisant. Ysgrifennodd darn ar y teitl 'Roeddwn i yno'. Yr oedd Margaret wrth ei bodd i ennill y Goron ac yr oedd yn enillydd cwbl deilwng. Yr arholiad cyntaf i Margaret sefyll yn ei bywyd oedd arholiad ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Llongyfarchiadau gwresog iddi.

Marilyn Pitcher o Gaerffili enillodd y slogan i ddenu dysgwyr i ddysgu'r Gymraeg a'r frawddeg gan ddefnyddio'r llythrennau MORGANNWG. Y mae Margaret yn aelod o'r Cwrs Dwys sydd yn cwrdd ar dri bore'r wythnos yng Ngartholwg.

Brawddeg Marilyn – **M**anylion **o** **R**wsia – **g**lo **a** **n**wy **n**aturiol **w**edi **G**orffen
Slogan Marilyn –
Ar ôl y dosbarth:-
Siarad Cymraeg – dod yn rhugl
Dim ymarfer – aros mewn rhigol.

Y côr buddugol oedd Côr Cwrs Dwys Gartholwg o dan arweiniad Tudor Curtis-Williams sydd yn aelod o Gantorion Creigiau. Bu hefyd yn chwarae rhan amlwg yng nghôr y Gleision ar 'Codi Canu'. Calon Lân ganodd y côr.

Y dasg i'r limrigwyr oedd gorffen limrig yn dechrau
'Aeth Jonny am dro ar y mynydd'.
Dyma'r un buddugol sy'n eiddo o Glenis Hunt sy'n aelod o ddosbarth Cennard Davies yng Ngholeg Morgannwg, Llwynypia:

Aeth Jonny am dro ar y mynydd
Er gwaetha rhagolwg y tywydd;
Brasgamodd fel gwynt
Yn gynt ac yn gynt
Â tharw yn dynn ar ei drywydd.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson ac yn sicr bydd ail Eisteddfod y flwyddyn nesaf.
(Lluniau ar dudalen 4)



Côr Ysgol Creigiau yn y Cyngerdd yn EfailIsaf



Côr Ysgol Garth Olwg yn y Cyngerdd yn EfailIsaf

## Eisteddfod y Dysgwyr



Côr Cwrs Dwys Gartholwg



Margaret Cummings,
enillydd y Goron



Marilyn Pitcher enillydd y slogan

Joanne Morris
Efail Isaf



*Isod*
Cyngerdd Merched
y Garth yn Harlech



## Llun lliw o'r gorffennol

**Yn rhifyn Medi 1988 roedd hanes am daith fynychwyr selog dosbarth llenyddol Efail Isaf i Sir Gâr i ymweld â bedd William Williams, Pantycelyn yn Llanymddyfri**



# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Gwellhad Buan**
Dymunwn yn dda i'r Parchedig Eirian Rees, Penywaun a Gary Raison, Heol y Ffynnon, a'r ddau wedi treulio cyfnod byr yn yr ysbyty yn ystod y mis. Dymunwn adferiad iechyd llwyr i'r ddau.

**Ymddeoliad**
Mae Ann Dixey, Heol y Ffynnon wedi ymuno'n swyddogol â'r criw o bobl sydd wedi ymddeol yn y pentref. Athrawes Economeg y Cartref yn Ysgol gyfun y Cymer oedd Ann tan yn ddiweddar. Rhaid imi brysuro i ddweud mai ymddeol yn gynnar wnaeth Ann oherwydd afiechyd. Dymunwn yn dda iti a gobeithio y cei flynyddoedd o hapusrwydd a dedwyddwch. Bydd cyfle i ymweld ag Enfys a Meilyr yn amlach nawr.

**Swydd Newydd**
Llongyfarchiadau i Dylan, mab Celt ac Enfys Hughes, Nant y felin sydd bellach yn hyfforddwr Mathemateg yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar gampws Garth Olwg. Fe gychwynnodd Dylan ar ei swydd newydd ddechrau'r flwyddyn. Dymuniadau gorau i ti, Dylan.

**Corau'r Pentref.**
Bu tri chôr y pentref yn brysur yn ddiweddar.

**Côr Godre'r Garth**
Teithiodd aelodau Côr Godre'r Garth i ardal enedigol Eilyr Owen Griffiths i gynnal cyngerdd yng nghapel Hebron, Hen Golwyn. Fore trannoeth fe ymunodd y Côr gyda'r gynulleidfa mewn Oedfa Foreol yn Llanrhaeadr Dyffryn Clwyd mewn seremoni i ail-agor yr adeilad ac i ddathlu fod Nain Eilyr wedi bod yn organyddes yn y capel am ddeg a thrigain o flynyddoedd. Tipyn o record! Yn anffodus bu'n rhaid i Eilyr ruthro o'r oedfa ar frys i ddal awyren yn Heathrow gan ei fod yn mynd â grŵp o fyfyrwyr o Goleg y Drindod i Efrog Newydd. Mae aelodau'r Côr yn dal i sôn am y cinio bendigedig a baratowyd iddynt gaen aelodau'r capel cyn iddynt droi am adre.

**Côr Merched y Garth**
Cafodd aelodau Côr Merched y Garth gyfle i deithio i'r Gogledd hefyd ar ddydd Sadwrn, 3 Mawrth. Roedd y Côr yn canu mewn Noson Lawen yn Theatr Ardudwy, Harlech ac yn rhannu'r llwyfan gyda'r delynores Meinir Heulyn, y grŵp Pryd Ma' Te, Ffarmwr Ffowc a disgyblion Ysgol Ardudwy.

Ar nos Fercher, 21 Mawrth, bu'r Côr yn diddanu Cangen Merched y Wawr, Tonysguboriau. Y nos Iau canlynol roedd y merched yn canu ar Y Lanfa yng Nghanolfan y Mileniwm cyn mynd am bryd bach o fwyd i'r Mimosa yn y Bae.

**Parti'r Efail**
I'r brif ddinas yr aeth Parti'r Efail i ganu a diddanu'r gwahoddedigion mewn priodas yn neuadd y Ddinas. Lowri Glain oedd y briodferch a hithau'n wyres i'r diweddar Mrs Enid Watkin Jones o Bentyrch. Brodor o'r India oedd y priodfab ac mae'r ddau wedi cartrefu yn Llundain.

**"Taith dros Fywyd"**
Llongyfarchiadau i Jessica, merch Owen a Joanne Morris, Swyddfa'r Post am godi £150 tuag at Sefydliad Aren Cymru. Cerddodd Jessica, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Castellau dair milltir o gwmpas Pentre'r Eglwys. Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref drefnodd y "Daith dros Fywyd" a gwahoddwyd cangen brownies, Efail Isaf i ymuno ar y daith. Da iawn ti Jessica.

**TABERNACL**

**Aelod Newydd**
Yn y Gwasanaeth Cymun ddechrau mis Mawrth derbyniwyd Siân Barnes yn aelod yn yr eglwys. Daeth Siân a'i haelodaeth atom o Eglwys Salem yng Nghaernarfon, lle bu'n aelod gweithgar. Mae Siân yn gweithio yn y Cydbwyllgor Addysg yng Nghaerdydd. Croeso cynnes i chi.

**Cyngerdd y Plant**
Cafwyd gwledd o gerddoriaeth yn Y Tabernacl ar nos Fawrth, 13 Mawrth. Plant Ysgol gynradd y Creigiau a phlant Ysgol gynradd Garth Olwg fu'n ein diddanu. Roedd y ddau gôr fel ei gilydd yn canu'n ardderchog. Cawsom eitemau unigol ac eitemau grŵp o safon uchel gan u ddwy ysgol. Diolch o galon i'r plant, yr athrawon a'r prifathrawon am roi o'u hamser a'u doniau i gefnogi apêl y capel.

Yn yr egwyl rhwng perfformiadau'r ddwy ysgol cawsom ein diddanu gan Steve Preston a chafodd pawb gyfle i glapio a chanu yn y gân olaf gan greu teimlad o hapusrwydd drwy'r gynulleidfa.

Cyflwynwyd elw'r noson tuag at Apêl Lesotho yr eglwys.

**Y Croeshoeliad**
Bydd cyngerdd arall ar Nos Sul, 1 Ebrill am 7.30 yr hwyr. Cantorion Creigiau, o dan arweiniad Mair Roberts fydd yn perfformio'r "Croeshoeliad" gan Syr John Stainer gyda Graham Holcombe (organydd), Richard Allen (Tenor), a Martin Lloyd (Bas). Fe fydd elw'r noson honno hefyd yn cael ei ddefnyddio i greu dolen rhwng yr eglwys â Lesotho.

**Gwasanaeth Sul y Mamau**
Cafwyd gwasanaeth Sul y Mamau arbennig iawn yn y Tabernacl eleni. Aelodau Teulu Twm luniodd y gwasanaeth a chafwyd amrywiaeth o gerddoriaeth gwahanol iawn i'r arfer. Cafwyd tipyn o hwyl yn gwrando ar y criw ifanc yn perfformio "Rap Teulu Twm" a gyfansoddwyd ar y cyd rhwng yr aelodau ac Aneirin Karadog o'r grŵp "Genod Drwg".

Dewis elusen Teulu Twm eleni yw "The Joshua Foundation". Bu farw Joshua Cornelius o gancr yn saith oed yn 1998. Pan ymwelodd Sarah, mam Joshua ag aelodau Teulu Twm mi ddywedodd fod gan bawb ddewis mewn bywyd - naill ai eistedd yn y gornel a gadael i fywyd fynd heibio neu fynnu cael byw bywyd llawn, yn llawn profiadau hapus a bythgofiadwy, beth bynnag fo hyn y bywyd hwnnw. Dyna yw sail yr elusen ac mi roddodd Sarah y profiadau bythgofiadwy yma i Joshua.

Gwahoddwyd y gynulledifa i gyd i gael basnaid o gawl yn y Neuadd ar ôl yr Oedfa a chafodd pawb gyfle i gyfrannu tuag at elusen Joshua.

profiad digon trist a dweud y gwir i aelodau Teulu Twm oedd ffarwelio â Bethan a Huw. Mae'r ddau wedi arwain y Twmiaid yn flaengar a brwdfrydig am bum mlynedd. Anrhegwyd y ddau ar ddiwedd y gwasanaeth i fynegi diolchgarwch aelodau'r eglwys i gyd am waith diflino Huw a Bethan.

**Trefn yr oedfaon ar gyfer mis Ebrill**
1 Ebrill. Gwasanaeth cymun o dan arweiniad y Gweinidog.
8 Ebrill. Moliant y Pasg o dan ofal Mr Emlyn Davies
15 Ebrill. Y Parchedig Aled Edwards
22 Ebrill. Oedfa Deulu.
29 Ebrill. Mr Geraint Rees.

# Ysgol Garth Olwg

**Pêl rwyd**
Cawson ni ein gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Gynradd Castellau. Roedd hi'n gêm gyflym, a chyfle i nifer ddangos sgiliau pasio penigamp. Yn anffodus, collon ni'r gêm, ond mwynheuodd pawb.

Trefnwyd twrnament yn ein hysgol ni brynhawn Mercher, 14eg Chwefror. Daeth Ysgol Gynradd Llantwit Fardre ag Ysgol Gynradd Heol y Celyn i'r ysgol. Chwareon ni yn erbyn Llantwit Fardre yn gyntaf, ac er yr holl feddiant, roedden ni'n anlwcus i golli'r gêm. Collodd Llantwit Fardre yn erbyn Heol y Celyn, ac yna enillon ni yn erbyn Heol y Celyn. Da iawn chi blant!

**Rygbi**
Dydd Mawrth, 13eg Mawrth, buodd y tim rygbi'n chwarae yng Ngilfynydd. Cafwyd gêm gystadleuol iawn rhwng y ddau dîm. Y sgôr terfynol oedd Garth Olwg 10, Cilfynydd 20.

**Pêl-droed**
Buodd bechgyn blwyddyn 4, 5 a 6 yn chwarae pêl-droed yng Nghystadleuaeth 'New Directions'. Cafwyd diwrnod arbennig wrth i ysgolion o Dde Cymru gyfan cael eu cynrychioli yng Ngerddi Soffia. Chwaraeodd y bechgyn tair gêm gan golli dwy ag ennill un.

Mis diwethaf, buodd tîm merched Garth Olwg yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd. Cafwyd diwrnod da ym Mhen-y-bont wth i'r merched gael dwy gêm gyfartal a cholli un.

**Clwb garddio**
Mae rhai o blant Blwyddyn 6 yn mynd i'r clwb garddio bob nos Iau. Rydyn ni'n brysur iawn ar hyn o bryd yn paratoi'r tir ar gyfer plannu ffrwythau a llysiau. Roedddem ni'n ffodus iawn i gael cwmni rhaglen deledu 'Ffeil' nos Iau 22ain Fawrth.

**Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i bawb gymerodd ran yng nghystadleuaeth Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd. Cafodd yr ysgol lwyddiant mawr.

Elis Widgery yn gyntaf yng nghystadleuaeth Gwaith Creadigol 2D Blynyddoedd 3 a 4
Daniel Thomos yn ail yng nghystadleuaeth Gwaith Creadigol 3D Blynyddoedd 3 a 4
Rhian Parry yn ail yng nghystadleuaeth 2D Blynyddoedd 5 a 6
Rhiannydd Thomas yn gyntaf yng nghystadleuaeth Gwaith Creadigol 3D Blynyddoedd 5 a 6.
Osian Gruffydd yn ail yng nghystadleuaeth Graffeg Cyfrifiadurol
Jodie James yn gyntaf yng nghystadleuaeth Argraffu Addurno ar Ffabrig Blynyddoedd 5 a 6
Rachel Real yn gyntaf yng nghystadleuaeth 3D Tecstiliau Blynyddoedd 5 a 6
Jessica Sayle yn gyntaf yng nghystadleuaeth Print Du a Gwyn Blwyddyn 2 ac iau
Trystan Gruffydd yn gyntaf yng nghystadleuaeth Print Lliw Blwyddyn 3, 4, 5, 6
Angharad Evans yn ail Printiau Du a Gwyn Blwyddyn 3, 4, 5, 6 ac yn ail yng nghystadleuaeth Gemwaith Blwyddyn 3 a 4
Gabrielle Bush yn gyntaf yng nghystadleuaeth creu Arteffact Blwyddyn 6 ac Iau.

**Eisteddfod**
Llongyfarchiadau mawr i bawb a gystadlodd yn yr Eisteddfod Gylch yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen. Fe ddaeth Carwyn Roberts ac Eleri Roberts yn gyntaf yn yr unawdau ag Osian Gruffydd yn gyntaf yn yr unawd a'r llefaru. Enillodd y Côr, y Parti Unsain a'r Parti Deulais hefyd, ac felly byddant yn cynrychioli'r Cylch yn y Sir ym Mhorthcawl. Pob lwc i bawb!

**Cyngerdd yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf**
Perfformiodd yr ysgol mewn cyngerdd gydag Ysgol Gynradd y Creigiau yng Nghapel y Tabernacl, yn Efail Isaf nos Fawrth, 13eg o Fawrth. Pwrpas y gyngerdd oedd codi arian ar gyfer Capel yn Lesotho yn Affrica. Cafodd y gynulleidfa wledd o weld perfformiadau rhagorol gan y ddwy ysgol.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol: Marian Wynne*

**CLWB Y DWRLYN**
Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi eleni gyda chinio yn y Mochyn Du. Daeth criw da ynghyd i fwynhau'r wledd a baratowyd ar ein cyfer a braf oedd gweld cynifer o bobl ifanc wedi mentro i'n plith. Pleser pur oedd gwrando ar Nia Tudur yn canu i gyfeiliant Rhian Huws ar y piano a llwyddodd Catrin Heledd yn ei dull dihafal i'n difyrru â'i sylwadau ffraeth! Bu'n noson i'w chofio a mawr yw ein diolch i Morfydd a Gareth am eu croeso.

**CYDYMDEIMLAD**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Nerys a James Snowball a'r teulu ar farwolaeth sydyn Mrs. Richards,mam Nerys, i fyny yng ngogledd Cymru.

**GENEDIGAETH**
Llongyfarchiadau i Grant a Carys Sanders (Cefn Llan gynt) ar enedigaeth eu merch fach, Mali, yn Plymouth ar Chwefror 28.

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

**CYDYMDEIMLAD**
Roedd pawb yn flin i glywed am farwolaeth sydyn Mr Glyn Williams, Cambrian Avenue, dim ond ychydig dros flwyddyn wedi marwolaeth ei briod, Brenda. Brodor o Benygraig oedd Glyn ac yn berchennog garej trwsio ceir yno, ac roedd bob amser yn barod i helpu pobl gyda'u ceir. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei ferch Sarah a'i theulu yn eu profedigaeth. Roedd yr angladd yn Amlosgfa Llangrallo.

**DOSBARTH GWNIO A CHREFFTAU GARDEN VILLAGE**
Mae Merched y Dosbarth Gwnio a chrefftau wrthi eto yn gweu cywion a chwningod ac yn rhoi wy Pasg yn eu boliau a'u gwerthu er lles Ysbyty Felindre. Amser y Nadolig buont wrthi yn gweu sanau a'u llenwi a losin, ac yn brodio sêr a chanhwyllau a'u gwerthu er lles Tŷ Hafan. O ganlyniad i'w hymdrechion cyflwynwyd £1,100-10c i Dŷ Hafan tuag at y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud i gynorthwyo plant sâl iawn a'u teuluoedd. Mae'r merched yn gobeithio y llwyddant i godi swm tebyg i Felindre dros y Pasg.

**CARNIFAL**
Dywed Julie Kelly o Gymunedau Creadigol Rhondda Cynon Taf, fod y trefniadau ar y gweill ar gyfer Carnifal i Donyrefail, Gilfach Goch a'r Cymmer. Y dyddiad fydd Dydd Sadwrn Gorffennaf 21ain . Cynhelir Gorymdaith yn y Gilfach yn cychwyn o'r Parc am 10 o'r gloch ac yn mynd o gwmpas y cwm i gae Hendreforgan, ac yna ceir bysiau i gludo pawb i Barc Tyn y Bryn lle bydd stondinau ac ati. Bydd gorymdaith Tonyrefail yn gorffen yn y Parc lle bydd pawb yn ymuno yn yr hwyl a'r gweithgareddau. Bydd mwy o fanylion nes ymlaen.

# TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

*Gohebydd Lleol: Sylvia Fisher*

**CYDYMDEIMLAD**

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr. E.Lyn Miller, 61 Ffordd Gerddinen, Tonteg ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Roedd yn frodor o Faesteg ond treuliodd 32 o flynyddoedd yng Nghaerfyrddin lle roedd yn gynorthwy-ydd cyfreithiol i Gyngor Sir Caerfyrddin. Symudodd ef a'i wraig i Donteg ddwy flynedd yn ôl i fod yn nes at eu mab a'u merch sy'n byw ym Mhentre'r Eglwys. Cofir amdano fel dyn teulu oedd â chariad at lyfrau ac yn ddilynwr brwd o'i hoff dim rygbi Maesteg RFC. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Heol Awst Caerfyrddin a pharhaodd i gadw'r cysylltiad hyd yn oed wedi symud i Donteg. Estynnwn ein cydymdeimlad tuag at ei weddw , Mrs Valmai Miller, ei fab Alun Miller a'r teulu, y Padocs a'i ferch Janet Rowlands a'r teulu, Llys Coed Derw.

**Rygbi merched**

Does dim rhaid i'r bechgyn gael yr hwyl i gyd! Anghofiwch am yr esgidiau dawnsio a gwisgwch y bŵts. Mae Clwb Rygbi Llanilltud Faerdref eisiau sefydlu timau merched ar gyfer y tymor 2007 / 2008. Eu nod yw creu dwy garfan, 11 – 13 oed a 14 – 16 oed. Oes diddordeb gennych chi? Byddan nhw'n ymarfer ar faes Cae Fardre. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 212 461

**Cymdeithas Gymraeg Capel Salem.**

Mae'r gymdeithas yn parhau i gwrdd yn gyson. Ym mis Mai y siaradwraig wadd fydd Dr Katherine Jenkins. Croeso i bawb.

**Eisteddfod yr Urdd**


Pob hwyl i aelodau'r Urdd o'r ardal sydd yn cystadlu yn Eisteddfod y Sir.

**PRENTIS Y FLWYDDYN**

Llongyfarchiadau i Ryan Watkins, The Oaks, Pentre'r Eglwys ar ennill y teitl cenedlaethol Prentis y Flwyddyn.

Mae Ryan, sydd yn gyn ddisgybl i Ysgol Gynradd Gartholwg ac Ysgol Gyfun Rhydfelen, wedi bwrw ei brentisiaeth fel peiriannydd gyda chwmni Bosch gan ddilyn cwrs ym Mhrifysgol Morgannwg. Erbyn hyn mae Ryan yn cymryd hoe o'i waith fel peiriannydd er mwyn teithio Awstralia, Seland Newydd a Ffiji am flwyddyn.






**Pêl-rwyd**
Ar y 12fed o Fawrth fe aeth y tîm pêl-rwyd i chwarae gêm yn erbyn Ysgol Gynradd Radur. Cawson ni lawer o hwyl ond yn y diwedd ni enillodd. Roedd pawb yn y tîm wedi sgorio ond y darn gorau oedd cael y diod a bisgedi ar ddiwedd y dydd ac rydyn yn edrych ymlaen at chwarae yn eu herbyn nhw yn y dyfodol!

**Cyngerdd y Côr**
Nos Fawrth y chweched o Fawrth fe berfformiodd y côr a rhai unawdwyr yng Nghapel Efail Isaf i godi arian at Gapel yn Lesotho. Fe gawsom ni hwyl yn canu Molwn ef am Gymru ac emynau eraill. Cymerodd Ysgol Garth Olwg ran hefyd a Steve a Gerwyn o Beddau. Ond un o'r rhannau gorau oedd cael siocled a sudd oren ar y diwedd.

**Eisteddfod Gylch Gorllewin Caerdydd**
Ddydd Mercher y 7fed o Fawrth, aeth rhai o blant Ysgol Creigiau i gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch ym Mhlasmawr. Llongyfarchiadau i'r canlynol: Joshua Morgan a ddaeth yn 1af ar yr unawd 10-12, Georgia Geary 1af ar ganu'r piano 10-12, Jacqueline Hopkins 1af ar lefaru 2il iaith 10-12 a Phoebe Richards 1af ar lefaru ail iaith 8-10. Llongyfarchiadau hefyd i'r Parti Unsain a aeth drwyddo i'r rownd nesaf er iddyn nhw ddod yn 2il. Da iawn bawb a gynrychiolodd yr ysgol.

**Sioe Diogelwch gan y Brodyr Gregory**
Ddydd Llun, Mawrth y 19eg o Fawrth fe ddaeth y Brodyr Gregory i'r ysgol i gynnal sioe diogelwch wych i ddangos i bawb yn yr Adran Gymraeg sut i gadw'r gymuned yn iach a diogel. Roeddent yn canu ac yn actio cymeriadau gwahanol ac yn cael help gan Eli Eco a Gari Gofal. Ond yn y diwedd roedd y gynulleidfa yn sefyll i ganu a dawnsio, hyd yn oed yr athrawon! Cymrodd Anna Rees, Oscar Unsworth a llawer o'r athrawon ran yn y sioe. Diolch i'r brodyr am gynnal sioe mor wych i ni. Dyna'r gorau eto!

**Gêm Bêl-droed**
Ddydd Mercher y 14eg o Fawrth fe gafodd yr ysgol gêm ymarfer rhag siomi'r plant oedd yn edrych ymlaen at gael chwarae gêm a gafodd ei ohirio. Fe ddewisodd Mr. Evans ddau gapten, Mathew a Corey. Bob yn ail fe ddewison nhw chwaraewr. Roedd y gêm yn un agos iawn gyda dim ond un gôl ynddi. Joe sgoriodd y gôl i ddod â buddugoliaeth i dîm Corey. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr iawn gan gynnwys Mr. Evans.

**Diwrnod y Trwynau Coch**
Ddydd Gwener 16eg o Fawrth, cymerodd bawb ran yn yr hwyl trwy wisgo esgidiau sydd ddim yn bâr. Codon ni £621 o bunnoedd. Roedd rhai plant wedi gwerthu cacennau a chyflawni distawrwydd noddedig. Diolch i'r plant a'r rhieni oedd wedi cefnogi'r diwrnod.

**Gwibdaith Dosbarth 1 a 2**
Thema Dosbarth 1 a 2 yw Dydd a Nos. Ddydd Mawrth diwethaf aeth Dosbarth 1 a 2 i Barc Treftadaeth y Rhondda ac i'r pwll glo i weld sut oedd Susan Rees yn gweithio ers talwm. Ar y ffordd yn ôl galwon nhw ym Mharc Ynysangharad Pontypridd i weld cofeb James James ac Evan James. Yno fe ganon nhw Hen Wlad fy Nhadau gyda'u llaw ar eu calonnau. Cawsant ddiwrnod wrth eu boddau.

**Eisteddfod yr Ysgol**
Ar y cyntaf o Fawrth fe gynhalion ni ein Eisteddfod Ysgol fel arfer. Fe gystadlodd y pedwar tîm - Collwyn, Gwrgant, Einion ac Iestyn i ennill Tarian Eisteddfod yr Ysgol. Fe gymerodd pawb ran dros eu timau trwy ganu mewn grwpiau a llefaru ac ar y diwedd fe ganon ni Hen Wlad fy Nhadau. Roedd y sgôr diweddglo yn agos iawn, ond enillodd Collwyn ac Iestyn. Am y tro cyntaf erioed daeth dau dîm yn gyfartal gyntaf. Daeth Einion yn 2ail a Gwrgant yn olaf. (dim ond o dipyn bach.)

**Darllen Miliwn o Eiriau**
Mae ysgolion yng Nghymru yn cymryd rhan yn yr ymgyrch i Ddarllen Miliwn o Eiriau. Mae Dosbarth 6 a Class 7 ill dau wedi darllen miliwn o eiriau yn barod - mae'n debyg mai nhw yw'r dosbarthiadau cyntaf yng Nghaerdydd i wneud hynny. Llongyfarchiadau mawr i blant y ddau ddosbarth! Fe gafon nhw sticeri yr un a thystysgrif i'r Dosbarth.

**Bynsen i Mam**
Am y tro cyntaf roedd ein cogydd, Bernie, wedi coginio cacennau ar gyfer Sul y Mamau i ni. Roedden nhw yn edrych yn flasus iawn a chawsom eu cario adre mewn bagiau papur yr oedden wedi eu haddurno.

menter caerdydd
www.mentercaerdydd.org
029 20565658

**Cynlluniau Gofal**



Fe fydd tri Chynllun Gofal yn rhedeg dros gyfnod gwyliau'r Pasg yn Ysgol Treganna, Ysgol Berllan Deg ac Ysgol Melin Gruffydd. Mae ffurflenni cofrestru ar gael yn y swyddfa nawr, neu ar ein gwefan. Am fanylion pellach, cysylltwch â Rachael Evans.

**Ffwrnais Awen**
Mae'r Fenter, mewn partneriaeth â'r Urdd yng Nghaerdydd, ar fin cychwyn clwb newydd cyffrous i blant ddiwedd y mis. Fe fydd Ffwrnais Awen yn cael ei gynnal lawr yng Ngwersyll yr Urdd yn y Bae, ac fe fydd plant o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 10 yn cael y cyfle i brofi a datblygu sgiliau drama, dawns a cherddoriaeth o dan hyfforddiant tiwtoriaid proffesiynol. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Angharad Thomas yn swyddfa'r Fenter neu e-bostiwch angharad@mentercaerdydd.org

**Penwythnos Teulu i Wersyll yr Urdd Llangrannog – Ebrill 13-15**
Mae lle ar ôl i deuluoedd ar benwythnos y Fenter i Wersyll yr Urdd, Llangrannog, ganol y mis. Mae'r pris yn cynnwys yr holl weithgareddau, llety a bwyd a diod. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Angharad – angharad@mentercaerdydd.org.

Eisteddfod
GENEDLAETHOL CYMRU

**Noson gyda'r**
**Athro Hywel Teifi Edwards**
**ac Arwerthiant Lyfrau**

**yn yr Oakdale, Sain Ffagan**
**7pm, Nos Iau, 10 Mai**
**Tocynnau: £7**
**tuag at Eisteddfod Caerdydd 2008**

# YSGOL GYFUN RHYDFELEN

**www.rhydfelen.org.uk**

**Merry Wives – y miwsical**

Ar y deunawfed o Ionawr aeth hanner cant yn griw eiddgar i Stratford i weld “Merry Wives”. Roedd y “Royal Shakespeare Company” wedi addasu drama Shakespeare a’i droi yn fiwsical. Un o’r rhesymau mwyaf am fynd i weld y sioe oedd Judi Dench. Er nad oedd hi ond yn actio rhan fechan mae hi yn wych ym mhopeth mae hi’n ei wneud. Roedd nifer o enwogion ynddo, Alistair McGowen a Hayden Gwyn. Roedd y cynhyrchiad yn llawn lliw a hwyl. Gwnaethpwyd llawer o’r set ac fe lwyddwyd i greu amryw o leoliadau yn dda. Roedd Ian Hughes fel y Cymro yn wych - yn defnyddio ei acen naturiol heb ystrydebu. Cynhyrchiad ffantastig a wnaeth i bawb wenu!

**Gŵyl Shakespeare**

Ar y pumed o Chwefror fe gawsom y fraint o berfformio “Harri’r 5ed” yn y Miwni ym Mhontypridd. Roedd ugain ohonom yn y cast ac roeddem wedi bod yn ymarfer ers mis Tachwedd. Y sialens oedd cyflwyno drama Shakespeare mewn hanner awr gan sicrhau bod y stori yn glir. Roeddem ni hefyd yn ei berfformio yn y Gymraeg - sialens arall i’r gynulleidfa!

Yn ôl yr arfer roedd yr ymarfer wisg yn ofnadwy ond erbyn y noson wedyn ac ar ôl geiriau caredig gan ein hathro fe aeth popeth yn dda. Er nad oedd mwyafrif y gynulleidfa yn deall Cymraeg roeddent i gyd yn dweud eu bod wedi deall y stori. Cawsom werthusiad teg iawn yn canmol ein gwaith grŵp. Profiad ffantastig a diolch i’r Adran Ddrama.

Carwyn Rees. Blwyddyn 8.

**Rasio Beiciau Modur**

Llongyfarchiadau i Siôn Talbot o flwyddyn 9 a enillodd bencampwriaeth y flwyddyn gyda’r “East Wales Motorcross Club” am y flwyddyn 2006. Mae yn ymarfer ar y trac yn Llanharan, ac yn rasio yn erbyn clybiau eraill fel “Severn Valley” a “Corsham”. Mae hyd at bedwar deg o feicwyr eraill yn dechrau pob ras.



Siôn Talbot.

**Darlith Ceir Fformiwla 1**

Am hanner awr wedi naw o’r gloch ar y cyntaf o Chwefror cychwynnodd 60 o ddisgyblion blwyddyn 9 ar fws araf i weld sioe am gynllunio ceir Fformiwla 1. Darlith flynyddol Faraday yr IET oedd y daith, ac yn ymweld â Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Gwelwyd clipiau o geir yn rasio. Cawsom esboniad o gynllun y peiriant, y gerau, y teiars a’r rheswm am yr aden fawr ar y cefn. Heb yr aden yn gwthio i lawr mae’n debyg byddai’r car yn troi’n awyren! Roedd y ddarlith yn ddiddorol a’r cwmni yn braf a chyrhaeddodd pawb yn ôl mewn pryd i ginio.

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol: Jayne Rees*

**Llongyfarchiadau**

Dymuniadau gorau i Eiry Miles, gynt o Graigwen ar ei dyweddïad â David Bryer, yn wreiddiol o Dre Meichion, Sir Ddinbych. Mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu ym Mhontarddulais ar ôl bod yn byw yn Abertawe. Byddant yn priodi yn yr Hydref yn y Gerddi Botaneg yn Llanarthne. Derbyniodd rhieni Eiry, Gareth a Gina Miles, Graigwen Parc, y newyddion ardderchog tra yn Buenos Aires. Roeddent wedi bod yn treulio tair wythnos ar wyliau yng ngwlad Chile a'r Ariannin.

# TONYREFAIL

*Gohebydd Lleol: Helen Prosser*

**JEANETTE THOMAS**

Gyda thristwch, rhaid nodi marwolaeth un o ddarllenwyr ffyddlonaf Tafod Elai yn ardal Tonyrefail. Bu Jean hefyd yn aelod selog yng Nghapel y Ton a phawb yn ei hadnabod am iddi gadw’r siop gig yn y Stryd Fawr am flynyddoedd lawer. Bu’n gymydog annwyl ac mae’r cymdogion yn y Stryd Fawr yn gweld ei heisiau. Nid oedd wedi byw yn ein plith ers rhyw flwyddyn ond yn hytrach mewn cartref nyrsio yn y Gogledd er mwyn bod yn nes at ei theulu. Cynhaliwyd yr angladd yn yr amlosgfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddydd Iau, 15 Mawrth o dan arweiniad y Parchedig Ruth Moverley, ficer y plwyf.

**POEMS AND PINTS**

Cafwyd noson lwyddiannus iawn i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn y Clwb Rygbi. Trefnydd y noson oedd Mr Hywel Gillard ar ran Prifysgol y Drydedd Oes, sydd yn ffynnu yn Nhonyrefail. Cafwyd darlleniadau gan aelodau o Brifysgol y Drydedd Oes a chyfeillion – nifer o gerddi gwreiddiol gan yr aelodau ond hefyd cerddi gan feirdd megis Gwenallt ac Idris Davies. Cafwyd eitemau cerddorol gan rai o blant Tonyrefail a’r Gilfach Goch.


CYDNABYDDIR CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

I’R CYHOEDDIAD HWN

www.bwrdd-yr-iaith.org



JobTrac Cymru

Canolfan Datblygu Busnes
Ystad Diwydiannol Trefforest
Pontypridd
CF37 5UR

T: 01443 843800
F: 01443 205735
E: post@jobtraccymru.co.uk
W: www.jobtraccymru.co.uk

Ydych chi’n

- CHWILIO AM SWYDD?
- CHWILIO AM WEITHWYR SY’N SIARAD CYMRAEG?
- CHWILIO AM YMGYNGHORWYR ADNODDAU DYNOL?

Adnoddau Dynol a Recriwtio Cymraeg

# Ysgol Gymraeg Castellau

**Chwaraeon**
Mewn dwy gêm bêl-droed yn erbyn Ysgol Gymraeg Gartholwg yn ddiweddar, enillodd tîm bechgyn Castellau o 4 i 0 a thîm merched Castellau o 4 i 1. Colli o 5 i 3 oedd hanes tîm rygbi Castellau yn erbyn Ysgol Llwyncrwn, ond mewn 5 gêm yng Nghystadleuaeth y Gleision, enillwyd 4 gêm a cholli 1. Llongyfarchiadau i bawb a diolch i'r ddau Mr. Davies am hyfforddi'r timau.

**Storïwr**
Cafodd plant Blynyddoedd 5 a 6 brynhawn ardderchog yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg ar Ddydd Gŵyl Ddewi wrth wrando ar y storïwr Michael Harvey yn adrodd chwedlau Cymreig adnabyddus a rhai mwy lleol. Llwyddodd y storïwr i ddal sylw'r plant yn llwyr gyda'i gyflwyniad bywiog a diddorol.

**Sioe Hetiau Pasg**
Cynhelir ein Sioe Hetiau Pasg i'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn fore dydd Mercher, Mawrth 28ain am 10.00 y bore. Croeso cynnes i deuluoedd a ffrindiau yn ôl yr arfer.


**Unawd Bl.2 ac iau**
Llongyfarchiadau mawr i Ellie Conway, enillydd ar yr Unawd Bl.2 ac iau, sef 'Mr Triongl', yn yr Eisteddfod Gylch. Bydd Ellie'n ymddangos ar y llwyfan ym Mhorthcawl fore dydd Sadwrn Mawrth 24. Pob lwc iddi hi!

**Ymweliad Ensemble Offerynnau Pres**
Cafwyd perfformiad proffesiynol iawn gan Ensemble Offerynnau Pres RhCT yn ddiweddar. Roedd y plant o'r Feithrin i Flwyddyn 6 wrth eu boddau'n clywed alawon adnabyddus o fyd ffilm a theledu a chafodd nifer ohonyn nhw'r cyfle i chwythu'r offerynnau er mwyn creu sain.


**Cymdeithas Rieni ac Athrawon**
Yn y cyfarfod diweddaraf, penderfynwyd derbyn cyfansoddiad newydd er mwyn cofrestru fel elusen gofrestredig. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yn nhymor yr haf er mwyn ethol swyddogion ar gyfer pwyllgor 2007/8.

Trefnwyd Disco Pasg i blant Blwyddyn 2 – 6 nos Fawrth Mawrth 27ain ac yna Helfa Wyau Pasg i'r plant bach brynhawn dydd Mercher Mawrth 28ain. Cynhelir arwerthiant Cist Car brynhawn dydd Sul Ebrill 29ain ar dir yr ysgol.


## Cornel y Plant




ALLWCH CHI GOPIO'R LLUN AR Y GRID?



LLIWIWCH Y LLUN



# YSGOL GYFUN LLANHARI

**Eisteddfod.**
Yn ystod y tymor ers Nadolig, mae disgyblion yr ysgol wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod YR Ysgol. Mae nifer fawr o gystadlaethau poblogaidd, ac fe fu cystadlu brwd iawn drwy'r dydd ar Fawrth 1af.

Ar wahanol adegau yn ystod y dydd, fe gafodd pob llys lwyddiant, ac fe fu pawb ar y blaen gyda marciau ar wahanol adegau. Ar ddiwedd y dydd, er bod llys Dyfan wedi ennill gyda'u côr eto eleni, fe ddaeth llys Illtyd i'r brig gyda'u harweinydd llys newydd Miss Catrin Rowlands. Llys Baruch oedd yn ail.

**Bardd y Gadair.**
Enillwyd cadair yr Eisteddfod gan Iolo James, Blwyddyn 12 ac o lys Illtyd. Fe enillodd hon ar ôl ysgrifennu 2 ddarn o ryddiaith. Llongyfarchiadau mawr iddo.


**Cadeirio Iolo James**

# Portread

*'Pnawn anhygoel o ran tywydd, - cryfder pelydrau'r haul a wnâi aml ddiwrnod o haf i gywilyddio, - a ninnau yn ei fwynhau tra y pery! Nain yn ddiwyd hel eitemau at yr antur fawr wythnos i heddiw. Ni chawsom ni law, hyd yma, amser ein hymadawiad, - nag ychwaith enw y gwesty yn Seville; daw popeth at ei gilydd mewn da bryd.'*

Daw rHyw fath o lythyr o Ddolgellau fwy neu lai bob mis; yn adrodd gwahanol straeon a rhai helyntion fyddai byth yn diflasu'r llygad. Yr wyf i'n gweld y llythyron misol yma fel sgwrs. Sgwrs na fyddai unrhyw drafodaeth ar y ffôn yn medru cyfleu. Ein cysylltiad personol rhwng y De a'r Gogledd. Fel pob hen oedolyn, tywydd yw canolbwynt pob sgwrs. Gallai rhywun feddwl bod y tywydd yn siapio bywyd rhai pobl. Does dim angen i mi edrych ar ragolygon y tywydd ar y teledu, mae'r sgyrsiau ysgrifenedig yma yn pennu y tywydd dros Gymru gyfan, am weddill y flwyddyn!

*Gawn sgwrs dros y wifren eto cyn cychwyn ar ein teithiau gwahanol. "Gwyn eich byd" - dyna ein dymuniad ni ein dau yn serchog.*

*Nain a* ***Taid*** *xxxxx*

Os ewch chi i Ddolgellau; unrhyw adeg o'r flwyddyn a chrybwyll yr enw John Dyer James, galla i eich sicrhau chi bydd pawb, fwy neu lai, yn 'nabod neu yn gyfarwydd â'r enw. Ond y peth hynod am boblogrwydd John Dyer yw bod pawb yn ei 'nabod am resymau gwahanol. A dyna pam mae'n fraint i fi alw John Dyer James yn Daid i mi. Gall unrhywun siarad â Taid, mae hi mor hawdd cael sgwrs gyda fe, ac am unrhywbeth.

Ar hyd y blynyddoedd mae Taid wedi darganfod ei hun mewn nifer o sefyllfaoedd a swyddi cymdeithasol sy'n cyfleu ei barodrwydd i gwrdd â phobl newydd. Yn y gorffennol mae wedi cynrychioli Plaid Cymru ar y Cyngor a Phwyllgor Gyfeillio Dolgellau â Llydaw ac wedi bod yn Faer dros Ddolgellau. Hyd heddiw mae'n gweithio yn siop lyfrau Dolgellau, Siop y Dydd, lle mae'r trigolion yn aros i gael sgwrs gyfeillgar bob tro y maent yn mynd heibio. Er bod fy Nhad wedi dweud droeon bod Taid yn medru rhoi stŵr (a dyle fy Nhad wybod, medde fe), dydw i erioed wedi ei weld yn colli ei dymer; dyna pam ei fod yn gymeriad mor hoffus.

Fel plentyn cofiaf un nodwedd unigryw am Taid sef ei gof anhygoel. Roedd e wastad yn ailadrodd hen benillion a cherddi a dyfyniadau o hen nofelau megis Dickins a D.J. Williams. Pan fydda i'n wyth deg tri ac yn medru cofio hanner y pethau mae ef yn ei gofio bydda i'n gwybod bod cof da gen i! Dyn aruthrol o ddoeth yw Taid, ond er ei fod wedi derbyn gradd dosbarth cyntaf mewn Bywydeg a Swoleg dyw coginio ddim yn un o'i gryfderau. Ar un achlysur, pan oedd Mam yn fy nisgwyl i, parataodd Taid pryd o fwyd iddi; wŷ ar dost. Ond pan ddaeth Taid i fewn i'r ystafell fwyta yn cario y plat yn sigledig, roedd gwyn yr wŷ fel dŵr. O'r diwrnod hwnnw roedd Mam yn gwybod nad oedd Taid yn gogydd penigamp!

Rydw i wastad wedi gweld Taid fel hen blentyn. Er fod ei groen a'i glyw wedi gweld dyddiau gwell, fel unrhyw Daid arall, plentyn bach chwareus yw Taid o hyd. Pan ddaw i'n gweld lawr yma yn y De caf wledd o'i weld yn rolio ac yn gwneud symudiadau di-ri ar y carped yn ein lolfa. Alla i ddim enwi un Taid wythdeg tri mlwydd oed arall sy'n diddanu ei ŵyrion fel mae fy Nhaid i yn ei wneud. Ac er bod fy chwaer a finne wedi aeddfedu ryw fymryn erbyn heddiw mae'n dal yn gwybod bod ei ddoniolwch yn dod â gwên i'n hwynebau. Anghofiaf fyth yr amseroedd pan aem i lawr i'r parc tu ôl i fy nhŷ i chwarae un o hoff hobïau Taid - criced. Treuliai oriau yn gwylio criced ar y teledu, tra'n eistedd yn hamddenol braf yn ei gadair a chwpaned o de bendigedig Nain yn ei law. Mwynha, hyd yn oed yn fwy pan golla Lloegr! Sonia Dad yn aml am y tripiau niferus i Sain Helen, cartref Sir Forgannwg i fwrw'r Sul a chefnogi arwyr Taid sef Majid Khan ac Allan Jones. Arferai Morgannwg chwarae un gêm y flwyddyn ym Mae Colwyn a mawr oedd syndod Dad pan yn fachgen ysgol yn ei arddegau i Taid fynnu ei fod yn colli diwrnod o'r ysgol er mwyn i'r ddau ohonynt fod yn dyst i hud a lledrith Majid. Pan chwalwyd wiced y gŵr o Bacistan ac yntau wedi sgorio nawdeg naw o rediadau mae Dad yn taeru iddo glywed Taid yn "damnio" dan ei wynt! Ers cyn co' 'dwi wedi cysylltu Taid gyda chriced. Pan ddaeth ef a Nain i lawr o Ddolgellau am y penwythnos yn ddiweddar roeddech chi'n siwr o'i ddarganfod yn ein hystafell fyw a'r teledu lloeren yn darlledu Cyfres y Lludw yn ei holl ogoniant.

Yn anaml iawn mae Taid yn y tŷ, mae e allan yn cymdeithasu, efallai y Gymdeithas Lên neu Bwyllgor y Blaid, efallai yn darllen i'r deillion neu'n cymryd cofnodion i Undeb yr Amaethwyr. Dyna fyd Taid, rhoi o'i orau ac aeddfedu fel gwin da.

"Lle 'da chi wedi bod Taid?"
"O dim ond i fyny i'r Ysbyty i gadw cwmni i'r hen bobl 'sti."

Da iawn chi Taid.

Iolo James.

# MERCHED Y WAWR
# Cangen y Garth

Yn ystod misoedd yr haf, mae'n siwr bod nifer fawr ohonom yn mwynhau gwylio'r amrywiaeth o raglenni garddio a geir ar y teledu. Un o'r uchafbwyntiau blynyddol yw Sioe Flodau Chelsea, pan fyddwn yn rhyfeddu at weledigaeth rhai o'r garddwyr wrth iddynt greu gerddi anhygoel wedi'u selio ar themau diddorol. Dyna hefyd sy'n digwydd yn sioe'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, sef yr RHS, yng Nghaerdydd bob mis Ebrill erbyn hyn. Un o'r garddwyr sydd wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer y sioe honno yw Brian Jones o Faglan, Port Talbot, a buom yn ddigon ffodus i gael cwmni hyfryd a diymhongar Brian yn ein cyfarfod ar Fawrth 14eg.

Mae Brian yn darlithio yn yr Adran Arddwriaeth yng Ngholeg Pencoed ac mae ef, a'i fyfyrwyr wedi bod yn cystadlu yn yr RHS ac yn sioe Gardener's World ers sawl blwyddyn ac wedi ennill gwobrau aur yno am greu gerddi gwych. Cawsom weld lluniau'n dangos sut roedd y criw yn mynd ati o'r dechrau i benderfynu ar thema, gweithio ar y cynllun, dod o hyd i'r defnyddiau oedd eu hangen a dewis y llwyni, planhigion a'r blodau addas. Yna, gweld lluniau o'r gerddi gorffenedig – anhygoel, yn enwedig wrth i ni sylweddoli mai cyllid bach iawn oedd ganddynt a bod y myfyriwr eu hunain yn gorfod talu am y defnyddiau. Wrth gwrs, ar ôl ennill, roedd tipyn mwy o arian ganddynt i symud ymlaen at eu cynllun nesaf!

Y project nesaf yw dechrau paratoi ar gyfer sioe'r RHS yng Nghaerdydd ym mis Ebrill, ac mae'n ddigon posibl y bydd llawer iawn o bobl o ardal y Garth yn ymweld â'r safle eleni er mwyn gweld campwaith diweddaraf Brian!

Un pwynt pwysig iawn arall - wedi dysgu Cymraeg y mae Brian ac erbyn hyn, mae'n rhugl ac yn gallu siarad yn gyhoeddus yn huawdl. (Dyli nodi bod rhywfaint o'r diolch am hynny i Carol Penri, a ddisgrifiodd Brian fel dyn 'lyfli' – roedd hi'n berffaith iawn !!!)

Diolch o galon iddo am ddod yr holl ffordd o Faglan i'n diddori!

# Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru
## Buwch, llo a mochyn i bawb - mwy o obaith yn Nicaragua ers dros ddegawd a mwy

Dychwelodd y Nawfed Dirprwyaeth o Gymru i Nicaragua dros y penwythnos, ar ôl ymweliad llawn gobaith.

Treuliodd y grŵp bythefnos yn y wlad yng Nghanolbarth America, yn ymweld â phrosiectau cymunedol, ffermwyr masnach deg, undebau llafur, a gwleidyddion o'r llywodraeth newydd.

Aeth y grŵp i aros ar fferm masnach deg yn La Coruna, cymuned fechan yn y mynyddoedd yng Ngogledd Nicaragua, a buont yn aros am bedwar diwrnod gyda phrosiect Action Aid yn Kukra Hill ar Arfordir y Caribî. "Roedd y prosiect Action Aid yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus a welsom ar ein holl daith i Nicaragua," meddai Huw Meredydd Roberts, aelod o'r ddirprwyaeth sy'n byw ym Mhentre'r Eglwys. "Roeddent wedi gweithio gyda'r gymuned a'r Cyngor lleol i sefydlu system dwr glân, cynllun credyd-micro, busnesau bach, a helpu i gefnogi ffermwyr lleol."

Sefydlodd y prosiect Radio Kukra Hill hefyd, a chafodd y gwirfoddolwyr o Kukra weithdy ar gynhyrchu rhaglenni gan Huw, sy'n gynhyrchydd gyda rhaglen C2 ar BBC Radio Cymru. Mae'r rhaglen gan wirfoddolwyr Radio Kukra Hill yn cynnwys cyfweliadau gan ddwy arall o'r ddirprwyaeth, mam a'i merch Carol a Branwen Ellis o Flaenau Ffestiniog.

Darlledir y rhaglen ar Radio Bro Blaenau ar Radio Cymru yr wythnos nesaf (mae Radio Kukra Hill a Radio Bro Blaenau yn rhannu'r un donfedd - 92.5 FM!). Tra roeddent yno, rhoddodd y ddirprwyaeth 40 radio clocwaith i Kukra Hill, i'w dosbarthu i deuluoedd a chymunedau heb drydan, ac sydd ddim yn gallu fforddio pris batris hyd yn oed.

Un arall o'r uchafbwyntiau oedd cwrdd â'r mudiad sydd wedi saernïo'r cynllun newydd i atal pobl rhag llwgu yn Nicaragua.

'Dim Llwgu' ydy enw'r cynllun newydd, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Sandinistaidd fis ar ôl ennill grym ym mis Tachwedd. Cafodd y cynllun ei ddatblygu gan y mudiad cymunedol CIPRES, a chafodd y ddirprwyaeth gyfle i siarad ag un o'r arweinwyr, sydd newydd gael ei benodi gan y Llywodraeth i ehangu'r cynllun i'r wlad i gyd.

"Mae'r cynllun yn syml iawn," meddai Ben Gregory, Ysgrifennydd yr Ymgyrch. "Bydd 75,000 o deuluoedd yn derbyn buwch a llo, a moch, a chael hadau, credyd a chyngor technegol i dyfu eu bwyd eu hunan, i fwyta a gwerthu. Bydd pob teulu yn cael 'bio-digester' i greu nwy i goginio a chreu gwrtaith, a bydd y llywodraeth yn sefydlu rhwydwaith o farchnadoedd lleol i dderbyn y cynnyrch, ag agor banciau credyd a swyddfeydd cyngor lleol."

Mae CIPRES wedi peilotio'r cynllun gyda 3,000 o deuluoedd, a bydd y cynllun cenedlaethol yn cyrraedd 500,000 o bobl o fewn y pum mlynedd nesaf. "Bydd y cynllun yn gam mawr tuag at gyrraedd y Gol Datblygu'r Mileniwm cyntaf, sef haneru tlodi a dileu llwgu," meddai Ben.

Mi fydd Llinos a Huw Roberts yn gwneud cyflwyniad yn trafod y ddirprwyaeth yn ystod y gwasanaeth yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf, ar fore Dydd Sul, Ebrill 22ain am 10.45am.

⇒ *Lluniau*

**CYLCH MEITHRIN EFAIL ISAF**
**Bob Bore**
**Mawrth, Mercher, Iau a Gwener**
**9.30 - 11.30**
**Yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf**
**Manylion: 01443 208806**

**TI A FI BEDDAU**
**Bob Bore Mercher**
**10.00 - 11.30a.m.**
**yn Festri Capel Castellau, Beddau**

**TI A FI TONTEG**
**Bob Dydd Mawrth**
**10 - 11.30**
**yn Festri Capel Salem, Tonteg**

**TI A FI CREIGIAU**
**Bore Gwener 10 - 11.30am**
**Neuadd y Sgowtiaid,**
**Y Terrace, Creigiau**
**Manylion: 029 20890009**

**CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD**
**Bore Llun, Mercher a Iau**
**9.30-11.30**
**TI A FI CILFYNYDD**
**Dydd Gwener**
**9.30-11.30**
**Neuadd Y Gymuned,**
**Stryd Howell,Cilfynydd.**
**Manylion: Ann 07811 791597**

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail



**Dyma blant blwyddyn 1 yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi**



**Pypedau Lowri Pritchard**

## Cefnogi Nicaragua







**Gorsaf radio Kukura a'r criw o Gymry aeth ar y daith i Nicaragua.**



**Eisteddfod yr Urdd**
Mae'r plant wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod Gylch ac yn gweithio'n galed gyda gwaith celf a chrefft.

**Celf a Chrefft**
Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill clod i'r ysgol gyda'u gwaith celf a chrefft: Kate Maidment Davies, Ffion Haf Jones, Charlotte Howarth, Georgia Davies, Meaghan Euston, Ben Hughes, Ffion Davies, Lowri Pritchard, Summer Gowing ac Olivia Andrews.

Bydd gwaith Lowri Pritchard (Pyped dan 8 oed) a Kate Maidment Davies (Gwaith creadigol 2D dan 8 oed) yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**Eisteddfod Gylch**
Cafwyd llwyddiant yn y cystadlaethau isod:
Llefaru dan 8 oed – Jacob Hughes yn drydydd
Llefaru dan 10 oed – Harriet John yn fuddugol a Gwynfor Dafydd yn ail
Canu dan 10 oed – Harriet John yn fuddugol a Lauren Jones yn drydydd
Llefaru dan 12 oed – Natasha Doyle yn fuddugol a Ieuan Lewis yn ail
Ymgom – Grŵp Grace yn ail a Grŵp Ffion yn drydydd
Ensemble – yr ensemble telynau yn fuddugol – Natasha Doyle, Breifni Heymann a Megan Roderick
Pob lwc i Harriet, Natasha, yr Ensemble telynau a'r Grŵp Llefau yn yr Eisteddfod Sir.

**Ensemble**
Daeth Glenda Clwyd ac Ensemble Rhondda Cynon Taf i ddiddanu'r plant.

**Y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd**
Bu'r plant yn dysgu am y flwyddyn newydd Tseiniaidd.



**Masgiau y Flwyddyn newydd Tsieniaidd**

# FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws
029 20 811413 neu martin@huws1.fsnet.co.uk

**O2: 'TYNNU'R PLWG'**
Roedd sôn fisoedd yn ôl am gais cwmni ffôn poced O2 i godi mast ar dir Clwb Rygbi Ffynnon Taf.

Yn wreiddiol, gwrthododd y cyngor sir ganiatâd cynllunio ond apeliodd y cwmni a dywedodd Llywodraeth y Cynulliad y dylid gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol.

Wedyn roedd datblygiad annisgwyl. Roedd y clwb rygbi wedi cael cynnig arian pe bai'r mast yn cael ei godi ar eu tir ond penderfynodd pwyllgor y clwb dynnu'n ôl eu caniatâd i godi'r mast. Y rheswm am hyn oedd bod aelodau'r pwyllgor yn gofidio am effaith bosib y mast ar iechyd pobl leol.

**AR DAITH I'R ANDES**
Croeso'n ôl i Dafydd a June Huws, Gwaelod-y-garth, aeth i Chile a'r Ariannin am ddau ddiwrnod yn brin o fis. Eu cyd-deithwyr oedd Gareth a Gina Miles o Bontypridd.

Bu'r pedwar mewn sawl man, gan gynnwys Santiago, prifddinas Chile yng nghanol mynydd Cerro San Cristobal, Valparaiso, Puento Varas, Bariloche, Puerto Madryn ym Mhenrhyn Valdés, Trelew a'r Gaiman.

Dim llety gwael, golygfeydd godidog, digon o brofiadau newydd a llwyth o atgofion. Mwy o fanylion eto, gobeithio. Gyda llaw, y gred yw bod Patagonia yn dod o Patagones, enw'r bobol gynta gyrhaeddodd yr ardal 10,000 o flynyddoedd yn ôl.

**CREU ARGRAFF**
Gwall argraffu mwya trawiadol y mis, o gofio cynnwys y stori, oedd yr un yn rhifyn Mawrth y cylchgrawn materion cyfoes Barn pan oedd Siriol Griffiths yn holi Sian Gwynedd, golygydd newydd Radio Cymru, y fenyw gynta i ddal y swydd.

Hwn yw'r dyfyniad allweddol:

"O ran yr iaith Gymraeg, yn amlwg mae gennym ni ddyletswydd i fod yn safonol."

**FAN: LLOSGI BWRIADOL**
Llosgi bwriadol oedd y tân mewn fan yn Nhŷ Rhiw, Ffynnon Taf, ar Chwefror 20, medd yr heddlu.

Mae Alison a Christopher O'Brien, oedd wedi troi lori'n fan gwersylla, wedi dweud fod difrod o £5,000. "Mae'r caban wedi cael ei strywo'n llwyr," meddai Mrs O'Brien. "Ac maen nhw wedi mynd â'r fan am resymau diogelwch.

Dywedodd fod cymydog wedi ei ffonio pan oedd hi yn y gwaith. "Pan gyrhaeddes i wnes i feddwl fod tân yn yr ardd drws nesa. Pan gyrhaeddodd y dynion tân a chwistrellu dŵr ar y fan chwalodd y ffenestri."

**DATHLU 150 MLYNEDD**
Nid dim ond Cymru sy â chysylltiad â'r Ariannin. Roedd miloedd ddechrau Mawrth yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r Ariannin yn coffáu marwolaeth y Llyngesydd William Brown.

Bu farw yn 1857 a bu seremonïau yn ei dre enedigol, Foxford, Swydd Mayo, ac yng Nghei Syr John Rogerson yn Nulyn. Fe sefydlodd Lynges yr Ariannin a chwarae rhan bwysig wrth ymladd am ryddid y wlad honno.

ENNILL TIR
Doedd dim llawer o sôn yn y wasg am Gorfforaeth Ymddiriedolwyr Pensiwn AXA'n prynu Stad Ddiwydiannol Fairfield yng Ngwaelod-y-garth.

"Roedden ni'n awyddus i brynu mwy o dir yn ne Cymru," meddai John Osborn o'r cwmni "ac mae'r stad lle mae bron 50,000 o droedfeddi sgwâr yn cynnwys tenantiaid fel y Post Brenhinol." Y pris oedd £3.7 miliwn.

**HELPU FFRIND YN DROBWYNT**
Llongyfarchiadau i Enoc a Doris Smith sy wedi bod yn briod ers 65 mlynedd. Bu'r ddau'n cael cinio yng ngwesty Cwrt Bleddyn, Casnewydd, gyda ffrindiau o Gymdeithas y Gofalwyr.

Yn yr Ail Ryfel Byd roedd Enoch yng Nghatrawd Sir Fynwy. Un noson aeth i weld ffrind oedd yn yr ysbyty ac yn ffansïo nyrs. Roedd wedi trefnu oed ac awgrymodd y ffrind y dylai Enoch fynd mas gyda ffrind y nyrs yr un noson.

Cytunodd Enoch heb feddwl dim byd. Trodd noson hamddenol yn briodas.

**DIWEDD CYFNOD**
Roedd dydd Sadwrn, Mawrth 23, yn ddiwrnod trist, Neil o hen siop Spar yn cau am y tro ola. Am wythnos roedd arwydd wedi bod yn ei ffenest: "'Wy'n diolch i bawb sy wedi 'y nghefnogi i ers 10 mlynedd. Credwch fi, 'wy wedi gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn."

Ond doedd y gefnogaeth ddim yn ddigon. Roedd wedi sôn ers tipyn am y newidiadau mawr ar waith, grym archfarchnadoedd Tesco yng Nglan-bad ac Asda yng Nghoryton a chystadleuaeth y Co-op yn y pentre.

Pob lwc iddo. Dyw e ddim yn siŵr beth fydd ei swydd nesa. Does neb yn siŵr beth fydd yn digwydd i'r siop. Os yw'r cwmni marchanata ar lawr cynta'r adeilad am ehangu, bydd rhaid gwneud cais cynllunio.

**DIGWYDDIADAU**
**CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-garth**, 10.30am. Ebrill 1: Parchedig Robin Samuel, Cymundeb; Ebrill 6: Gwasanaeth Bore'r Groglith; Ebrill 8: Mr Arfon Jones; Ebrill 15: Parchedig Menna Brown; Ebrill 22: Parchedig Lona Roberts; Ebrill 29: Parchedig Carwyn Arthur.

**CYLCH MEITHRIN Ffynnon Taf,** 9.30-12, ddydd Llun tan ddydd Gwener. Taliadau: £4.75 y sesiwn. Ti a Fi, 1.15-2.30 bob dydd Mawrth. Taliadau: £1.50 y sesiwn.

**CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch:** ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.



Y Meuryn, Gerallt Lloyd Owen, a'r cynhyrchydd, Dwynwen Morgan, gyda rhai o aelodau'r Dwrlyn - Ynyr Williams, Menna Thomas, Ifan Roberts a Rhodri Gwyn-Jones - a'u gwrthwynebwyr yn y rownd ym Mhen-y-Bont ar Ogwr o Dalwrn y Beirdd. Tîm y Cŵps - Rocet Arwel Jones, Dafydd John Pritchard a Dafydd Morgan Lewis.

# CROESAIR COL


**Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.**

**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,**
**Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 20 Ebrill 2007**

Enillydd mis Mawrth
Mrs Siân Webb, Pontyclun

**Ar Draws**
1. Dyffryn, glyn (4)
6. Cân hir mewn cynghanedd (4)
8. Cwymp eira (7)
9. Ys dywed (2,2)
10. Llinyn o gotwm (4)
11. Cyfanswm yr amser y bydd person byw (7)
12. Oferyn i drin gwallt (4)
14. Yn cytuno (4)
17. Mordwyo (5)
20. Preswylio, byw (5)
21. Ffug-chwedl (5)
22. Math o ffrwyth (5)
25. Afon fechan (4)
28. Enw dyn (4)
30. Twyllodrus (7)
31. Erw (4)
32. Fforest (4)
34. Diffyg cwsg (4)
35. Ceubwll, basn (4)

**I Lawr**
2. Pwrs (5)
3. Derbynneb (5)
4. Rhwygo, dryllio (6)
5. Gloywi, llyfnhau (6)
6. Nodi gwerth (5)
7. Rheg diniwed (5)
12. Pib (5)
13. beichio wylo (5)
15. Gogoneddus, hyfryd (5)
16. Ffŵl, ynfytyn (5)
17. Cen gwyn y llygaid (3)
18. 480 o ddalennau (3)
19. Coed (3)
23. Caseg ifanc (6)
24. Aros (6)
26. Pwrpas (5)
27. Trwst (5)
28. Ffiaidd, annymunol (5)
29. Syth, di-oed (5)



## Atebion Mawrth

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H | I | N | F | Y | N | A | G | | D | A | C | W |
| | S | | I | | E | | O | | I | | E | |
| C | O | R | O | N | I | | D | I | G | O | N | I |
| | D | | L | | S | | R | | A | | F | |
| | | | A | N | I | F | E | I | L | A | I | DD |
| | C | | | | E | | | | O | | G | |
| T | Y | R | CH | O | D | | C | A | N | T | E | L |
| | D | | W | | | | E | | | | N | |
| H | A | F | A | L | O | CH | R | O | G | | | |
| | DD | | N | | CH | | DD | | E | | I | |
| P | O | E | N | F | A | | B | A | N | N | O | G |
| | L | | E | | I | | E | | F | | L | |
| T | I | W | N | | N | O | R | M | A | D | O | L |


**Prynu ar-lein a chefnogi'r Fenter Iaith**

Gallwch gefnogi'r Fenter drwy wneud eich siopa ar-lein yn

**www.buy.at/menteriaith**

Dewis eang o Amazon, M&S, Littlewoods a gwasanaethau eraill.



**CAPEL SALEM TONTEG**
**GWASANAETHAU CYMRAEG**
**DYDD SUL 9.30 - 10.30am**
**Y GYMDEITHAS GYMRAEG**
**POB NOS WENER**
**7.00 - 8.30pm**
*Cyfle i fwynhau cwmni Cymry Cymraeg.*
**(02920 813662)**



**Gair yn Eich Clust!**

**Cyfarfod dwyieithog ar y gweill?**
**Poeni sut i gadw'r ddysgl yn wastad?**
**Huriwch offer cyfieithu am bris anhygoel o isel oddi wrth Uned Cyfieithu Rhondda Cynon Taf.**
**Dim ond £40.00 (gyda TAW) y diwrnod gwaith am bob blwch.**

**Eisiau gwybod rhagor?**
**Ffoniwch Steffan Gealy, Pennaeth yr Uned, ar (01443) 744431**

# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*



**Passiflora caerulea**

Dywedir bod y blodyn yn ymdebygu i groeshoeliad Crist:

- mae'r ddeilen yn symbol o'r wayw ddefnyddiwyd i drywanu Crist
- y pum petal a'r pum sepal – y deg apostol
- y pump anther – y pump clwy
- y tendrils – y fflangellau
- colofn yr ofari – pileri'r groes
- y stamens – y morthwylion a ddefnyddiwyd i daro'r hoelion
- y tri stigma – y tair hoelen
- y filaments oddi mewn i'r blodyn – y goron ddrain
- y calyx – y gogoniant
- y wawr wen - purdeb
- y wawr las – y nefoedd

Diolch i Heddwyn Richards

**Mrs Dilys Samuel**

Dymuna Gary a Beth a'r teulu ddiolch yn gynnes iawn am bob caredigrwydd ac arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli Mam, Mam-gu a hen-famgu, ynghŷd â ffrind arbennig. Diolch i'r Parchedig Eirian Rees ac i bawb arall frwydrodd yn erbyn yr elfennau i fynychu'r Gwasanaeth Angladdol.

**Siarad cyhoeddus.**

Bu tri o blant Creigiau sef Catrin Herbert, Gareth Rosser a Geraint Herbert yn cystadlu yng nghystadleuaeth Rotari Youth Speaks yn ddiweddar ar ran Ysgol Plasmawr.Daethant yn fuddugol yn y rownd gyntaf a chael mynd ymlaen i gystadlu yn rownd ardal Caerdydd a'r Fro yn erbyn wyth o ysgolion eraill. Bu dadlau brwd ac er na cafon nhw'r wobr gyntaf yn yr ail rownd bu'n noson dda a phrofiad gwych.

**Priodas hyfryd!**

'N ôl ym mis Ionawr fe briodwyd Gin ac Ian – merch Jenny a Mike MacDonald yw Gin a daw Ian Harvey ei gwr o Gaerdydd. Fe'u priodwyd mewn gwasanaeth cofiadwy iawn gan y Parch Eirian Rees yng Nghapel y Tabernacl. Cafwyd nifer o eitemau pwrpasol iawn yn ogystal – yn gerddorol ac o fyd llên. Cofir yn arbennig ddatganiad teimladwy Gareth, brawd Ian o'r clasur 'Myfanwy'. Fe ddathlwyd yr uniad ymhellach yng Ngwesty Coed y Mwstwr. Gyda'r nos bu'r hybarch Eric Willis yn llywio'r gweithgareddau yn gelfydd iawn gan olrhain hanes bywyd Gin yn arbennig o ffraeth! Mae Ian yn gweithio gyda Banc Lloyds a Gin yn physiotherapydd gyda Awdurdod Iechyd Caerdydd a'r Fro. Maent wedi gwneud eu cartref yng Nghaerdydd.

Diwrnod i'w gofio!



**Gwellhad llwyr a buan i ...**

... Mr Peter Condron, Stratford – dyw Peter ddim wedi bod yn hwylus iawn yn ddiweddar – ac mae ei hen ffrindiau yma'n Creigiau yn cofio'n garedig amdano. Brysia wella'n llwyr Peter, a gobeithio bod y driniaeth yn llwyddiant.

**Merch yn bencampwraig!**

A pham lai? Tybed a gofiwch chwi 'n ôl at ddechrau'r tymor rygbi, chwe pyndit dewr yn ceisio darogan sgôr y pum gêm rygbi rhyng-wladol (na fu'r disgleiria o berfformiadau!) – wel, cyflawnodd Bethan Thomas o Faesteg gamp anhygoel – gwnaeth ddyfalu y sgôr yn gywir deirgwaith. Daw Bethan o Faesteg ac mae'n gyfieithydd yn ESIS. Pan nad yw'n eistedd o flaen ei chyfrifiadur mae'n mwynhau dawnsio gyda Dawnswyr Gwerin Penyfai, a pherfformio ar lwyfan gyda chwmniau drama ac opera lleol.




**Cydymdeimlad dwys**

Bu farw Siân Watkins, nith fach ddeunaw oed Ann a Phil Angel, ar yr wythfed o Chwefror eleni (diwrnod yr eira mawr) yn Ysbyty Llandochau, ar ôl brwydr hir a dewr. Yn Alltyblaca, ger Llanybydder roedd cartref Siân, ac roedd yn dioddef o Cystic Fibrosis. Merch chwaer Ann – sef Elin a'i gŵr Gary oedd Siân ac wyres i John a Menna Williams, Rhosybedw, Ffaldybrenin, Sir Gaerfyrddin.

Cafodd angladd fawr yng Nghapel Ffaldybrenin. Roedd dros 700 o alarwyr yn bresennol yn gwisgo dillad lliwgar – yn ôl dymuniad Siân. Mae'r cyfraniadau tuag at ymchwil i Cystic Fibrosis a Ward Cilgerran, Ysbyty Glangwili wedi cyrraedd bron i £8000.

Carai Ann a Phil ddiolch i'w ffrindiau yma yng Nghreigiau am eu cefnogaeth

## Arddangosfa Siprys

'Gwryw' yw teitl arddangosfa Siprys - grŵp o artistiaid - yn Oriel Canfas, Glamorgan Street, Treganna o 24 Mawrth i 21 Ebrill. Mae'r arlunydd, Allan Rosser o Waelod y Garth, yn arddangos tri llun o'i waith.

